| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 18 Gorffennaf 2024 |
| **TEITL** | Adolygiad Haen Ganol |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Sicrhau mewnbwn y Pwyllgor Craffu i'r newidiadau arfaethedig yn y modd y caiff y gwasanaeth gwella i ysgolion ei ddarparu i'r dyfodol. |
| **AWDUR** | Gwern ap Rhisiart |
| **AELOD CABINET** | Beca Brown |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Mae'r eitem hon wedi ei hadnabod yn y gweithdy blynyddol craffu fel eitem y credir y byddai'n amserol i'w chyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Gorffennaf 2024.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1 Adnabuwyd y maes hwn i'w graffu yn sgil adolygiad diweddar gan Lywodraeth Cymru o rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru, sydd yn golygu newid sylfaenol ac arwyddocaol yn y modd y darperir gwasanaeth gwella i ysgolion ar draws Cymru.

## 3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Yn sgil yr adolygiad, fe fydd Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol GwE yn dirwyn i ben ddiwedd Mawrth 2025. O ganlyniad, mae gofyn i bob Awdurdod Addysg sefydlu trefn gytunedig ar gyfer cefnogi ysgolion cyn hynny, gyda'r drefn honno'n diwallu gofynion y Fframwaith Gwella Ysgolion.

3.2 Yn sgil y newid sylfaenol yma yn y modd y darperir gwasanaeth gwella i ysgolion, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gofal tuag at staff GwE yn ystod cyfnod anorfod o ansicrwydd iddynt.

3.3 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi manylion y cynnig cenedlaethol hyd yma.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

**Adolygiad o Wella Ysgolion**

4.1 Ar 31 Ionawr 2024, bu i'r cyn-Weinidog dros Y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles AS gyhoeddi datganiad ysgrifenedig a oedd yn manylu ar y cam nesaf yn yr *adolygiad o wella ysgolion – rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru:* Datganiad Ysgrifenedig.

4.2 Yn y llythyr cysylltiedig a gyhoeddwyd (Llythyr DJ) gan yr Athro Dylan Jones a gomisiynwyd i gynnal yr adolygiad uchod, manylir ar 3 neges glir a ddaeth o bob cwr o Gymru yn yr adolygiad, sef mai'r trywydd y mae arweinwyr ysgolion a mwyafrif yr awdurdodau lleol am ei weld yn glir i'r dyfodol yw:

- cyfle i arwain ar faterion gwella ysgolion trwy fwy o ffocws ar gydweithio lleol a gweithio mewn partneriaeth rhwng yr arweinwyr ysgolion a'u Hawdurdod Lleol;
- partneriaeth rhwng mwy nag un awdurdod gan symud i ffwrdd o fodel cymorth rhanbarthol ehangach;
- arweinyddiaeth genedlaethol gryfach gyda blaenoriaethau cenedlaethol mwy eglur ar gyfer ysgolion a symleiddio'r dulliau cyllido cenedlaethol gyda chymaint o adnoddau â phosibl yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion neu i gefnogi grwpiau o ysgolion i gydweithio.

4.3 Yn ei hanfod, mae'r 3 elfen uchod yn arwain at newid yn y modd y darperir y gefnogaeth gwella i ysgolion, gan arwain at ddiwedd cyfnod ar gyfer y model Consortia Rhanbarthol. Yn syml, mae'r newid yn ein gorfodi i archwilio beth yw'r ffordd orau o gefnogi'r gwaith o wella ysgolion ar dair lefel:

1. Cefnogi gwaith rhwng ysgolion ar lefel leol;
2. Cefnogi cydweithio a rhwydweithio rhwng ysgolion ar draws awdurdodau lleol ac ar lefel genedlaethol;
3. Cefnogi'r gwaith o wella ysgolion ar lefel genedlaethol.

4.4 Ar 26 Chwefror 2024, nodwyd y byddai y tîm adolygu allanol (yr Athro Dylan Jones ac ISOS) yn symud i rôl newydd, gan gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i gyd-greu partneriaeth yng nghyd-destun ffrydiau gwaith 1 a 2 uchod.

4.5 Ers hynny mae un cyfarfod wedi bod gyda'r tîm adolygu a chyfarfod pellach gyda swyddog o'r Llywodraeth i drafod y Fframwaith Gwella Ysgolion, ac mae'r Ysgrifennydd Addysg newydd, Lynne Neagle AS, wedi datgan ei dymuniad i barhau â'r adolygiad ynghyd â'r newidiadau arfaethedig.

4.6 Ar 26 Mehefin 2024, derbyniwyd *Canllawiau drafft – Galluogi System Hunan-wella – model cydweithredol rhwng ysgolion, ALlau a Llywodraeth Cymru* (Gweler Atodiad 1) sy'n amlygu disgwyliadau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer dull cydweithredol newydd rhwng ysgolion mewn perthynas â hunanwerthuso a gwella.

4.7 Dyma grynodeb o'r model gan Lywodraeth Cymru:

- Fel man cychwyn, dylai ysgolion arwain eu prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant eu hunain mewn ffordd iteraidd (yn hytrach nag fel digwyddiad untro); dylai'r awdurdod lleol ac ysgolion eraill gefnogi'r broses hon.
- Bydd pob ysgol yn rhan o fodel gwelliant cydweithredol fertigol (3-16 a thu hwnt) a model gwelliant cydweithredol llorweddol (e.e. uwchradd i uwchradd). Ceir rhagor o fanylion isod. Bydd hyn yn galluogi arweinwyr ac athrawon i brofi dysgu ac arwain mewn ysgolion eraill – gan gefnogi cyd-ddealltwriaeth o'r disgwyliadau ar gyfer dysgu a chynnydd a galluogi i flaenoriaethau gwella manwl tymor hir gael eu nodi a'u trafod.
- Bydd ALlau, mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgolion, yn hwyluso ac yn rhoi cymorth i bob partneriaeth gydweithredol, gan nodi a manteisio ar arbenigedd a thystiolaeth, ynghyd â gwasanaethau ehangach yr ALl, wrth iddynt fwrw ati gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddysgu cyn gynted â phosibl.
- Mae ALlau yn gweithio gydag ALlau eraill a'r capasiti gwella ysgolion cenedlaethol i sicrhau dulliau gwella sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob rhan o'r system, gan alluogi ymdrech fwy cydlynus tuag at gyflawni cenhadaeth ein cenedl.


**Rôl yr ysgol unigol**

4.8 Disgwylir i ysgolion ganolbwyntio ar ddau gwestiwn allweddol fel man cychwyn ar gyfer eu gweithgareddau gwella:

1. A yw dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y ffyrdd a ddisgrifiwyd yn yr egwyddorion cynnydd, gan eu cefnogi i ddatblygu tuag at y pedwar diben?
2. A yw cyflymder cynnydd dysgwyr yn unol â disgwyliadau athrawon a'r cwricwlwm?

**Gwelliant Cydweithredol**

4.9 Dywed Llywodraeth Cymru y dylid ystyried gwelliant cydweithredol fel y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau newid cynaliadwy o fewn ysgolion, ar draws grwpiau o ysgolion, ac ar draws awdurdodau lleol; dylai hyn ganolbwyntio ar wella dysgu a deilliannau pob dysgwr. Bydd y dull gweithredu hwn yn arwain at well addysgu a dysgu, arweinyddiaeth, a thegwch, cynhwysiant a llesiant drwy feithrin capasiti ar y cyd a chyd-ddealltwriaeth o fewn y system leol.




4.10 Mae'n werth nodi, bod ysgolion Gwynedd eisoes wedi bod yn cydweithredu ar ffurf clystyrau yn y sector gynradd, ac ar ffurf cynghreiriau yn yr uwchradd dros y blynyddoedd diwethaf. Er hynny, cydnabyddir nad yw'r dull gweithredu hwn yn ddigon aeddfed ar hyn o bryd i sicrhau'r gefnogaeth, ond yn fwy allweddol yr her ysgol i ysgol sydd ei angen yn unol â disgwyliad Llywodraeth Cymru.

4.11 At hyn, yn sgil natur y gyfundrefn ysgolion yng Ngwynedd, gyda 79 ysgol gynradd, 12 ysgol uwchradd, 2 ysgol gydol oes a 2 ysgol arbennig, mae'r model cydweithredol hwn yn peri mwy o sialens i ni o safbwynt gallu darparu cefnogaeth a her briodol ar draws y gyfundrefn. Mae'r ffaith fod gennym gymaint o ysgolion cynradd ac uwchradd bychan o ran niferoedd yn creu heriau ychwanegol yn sgil diffyg capasiti i ryddhau staff ac arweinwyr i gyflawni'r gofyn cydweithredol hwn, ynghyd â'r amrywiaeth yn nifer yr ysgolion cynradd a geir ymhob dalgylch allai beri rhwystr pellach i gyflawni'r weledigaeth yn llwyddiannus. Hyn oll wrth gwrs, ochr yn ochr â'r hinsawdd ariannol presennol sydd yn golygu y bydd diffyg adnoddau gan ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn yr union gyfnod y disgwylir sefydlu'r dull newydd hwn o weithio.

4.12 Cyd-destun ychwanegol i'r newid hwn wrth gwrs yw gofynion Cwricwlwm i Gymru, a'r cymwysterau TGAU newydd sydd ar fin dod i rym, ynghyd â'r Fframwaith Arolygu newydd fydd yn dod i rym ym mis Medi, fydd yn golygu y bydd ysgolion yn derbyn ymweliadau Estyn bob 3 blynedd.

4.13 Yng nghyd-destun y disgwyliad i gydweithio ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol ar lefel leol, rydym yn rhagweld y byddwn yn cydweithio gyda Môn wrth ddatblygu'r trefniadau newydd hyn, gan fod gennym eisoes wasanaethau a ddarperir ar y cyd rhwng y ddwy sir, megis y gwasanaeth ADYaCh a'r consortiwm addysg ôl-16. Fodd bynnag, mae hi'n gynamserol i ni allu manylu ar beth yn union fydd y trefniant hwn ar hyn o bryd, gan mai newydd dderbyn y canllawiau drafft gan Lywodraeth Cymru yr ydym ni ddiwedd mis Mehefin.

4.14 Hefyd, yn sgil y newid sylfaenol yma yn y modd y caiff y gwasanaeth gwella i ysgolion ei ddarparu o fis Mawrth 2025 ymlaen, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gofal tuag at staff GwE yn ystod y cyfnod anorfod hwn o ansicrwydd iddynt. Dros y cyfnod nesaf bydd yna drafodaethau ac ymrwymiadau cyflogaeth i'w hystyried wrth i ni fynd ati i sefydlu'r gefnogaeth gwella ysgolion yn yr Awdurdod yn unol â disgwyliad Llywodraeth Cymru. Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn gweithredu'n briodol gan ddilyn arweiniad Adnoddau Dynol a gofynion TUPE, ac ni fyddai'n briodol i ni fanylu ymhellach ar hynny ar hyn o bryd.

## 5. Ymgynghori

5.1 Rydym wedi rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu'n gychwynnol yn ein fforymau strategol penaethiaid ar y newidiadau arfaethedig, ac wedi cyrchu barn penaethiaid yn anffurfiol ar y ffordd orau o gefnogi'r gwaith o wella ysgolion ar 3 lefel yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru.

5.2 Mae hi'n gynamserol i ddod i unrhyw gasgliadau yn sgil yr ymgysylltu cychwynnol yma. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd angen cefnogaeth ac arweiniad ar ein hysgolion er mwyn eu grymuso i allu herio a chefnogi ei gilydd yn briodol yn unol â'r disgwyliadau o gefnogi gwaith rhwng ysgolion ar lefel leol, ynghyd â'r Fframwaith Gwella Ysgolion.

5.3 Cydnabyddir hefyd y gall y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd greu heriau ychwanegol i gyflawni'r nod o gydweithio a rhwydweithio rhwng ysgolion ac ar draws ffiniau yn sgil amodau arweinyddiaeth mewn nifer o'n hysgolion, a'r cynifer o ysgolion sydd gennym ar draws y sir i sicrhau cydweithio effeithiol.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

6.1 Yn sgil y ffaith mai Llywodraeth Cymru sydd yn arwain ar y newid yn sgil comisiynu'r adolygiad haen ganol. Rydym wedi gofyn wrth y Llywodraeth am wybodaeth ynglŷn â'r modd y maent wedi cyfarch gofynion y Ddeddf Llesiant yn y camau cychwynnol hwn o'r newid strwythurol arfaethedig i'r haen ganol. Rydym yn derbyn y bydd angen manylu ar ein hymateb i ddyletswydd y Ddeddf Llesiant ar lefel leol wrth i'r camau nesaf ddatblygu.

6.2 A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

Yn sgil y ffaith mai Llywodraeth Cymru sydd yn arwain ar y newid yn sgil comisiynu'r adolygiad haen ganol, rydym wedi gofyn wrth y Llywodraeth am wybodaeth ynglŷn â'r modd y maent wedi cyfarch gofynion y Ddeddf Llesiant yn y camau cychwynnol hwn o'r newid strwythurol arfaethedig i'r haen ganol, gan gynnwys trigolion a defnyddwyr gwasanaeth.

Ar lefel leol, rydym wedi rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu'n gychwynnol yn ein fforymau strategol penaethiaid ar y newidiadau arfaethedig, ac wedi cyrchu barn penaethiaid yn anffurfiol ar y ffordd orau o gefnogi'r gwaith o wella ysgolion ar 3 lefel yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru. Mae hi'n gynamserol i gynnwys trigolion a defnyddwyr gwasanaeth ehangach yn lleol ar hyn o bryd, gan nad oes eglurder nac arweiniad pellach wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

6.4 A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

Yr arweiniad diweddaraf gan Lywodraeth Cymru yw'r angen i archwilio'r ffordd orau o gefnogi'r gwaith o wella ysgolion ar dair lefel sef;

1. Cefnogi gwaith rhwng ysgolion ar lefel leol
2. Cefnogi cydweithio a rhwydweithio rhwng ysgolion ar draws awdurdodau lleol ac ar lefel genedlaethol
3. Cefnogi'r gwaith o wella ysgolion ar lefel genedlaethol

Mae'r arweiniad yn glir felly ynglŷn a'r disgwyliadau i gydweithio, ac rydym yn y broses o ystyried y ffordd orau i gyfarch y gofyn hwn ar hyn o bryd.

6.5 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

Y llynedd, bu i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r haen ganol ddaru amlygu pethau oedd yn gweithio'n dda yn y drefn bresennol ynghyd â meysydd i'w gwella. Ar sail yr adborth a gasglwyd ar draws Cymru, penderfynodd y Gweinidog Addysg ar y pryd, Jeremy Miles AS symud ymlaen i archwilio ymhellach beth yw'r ffordd orau o gefnogi'r gwaith o wella ysgolion, a hynny ar dair lefel, ynghyd a nodi ei weledigaeth ar gyfer gwella ysgolion yng Nghymru.(Datganiad Ysgrifenedig). Mae'r newidiadau arfaethedig felly'n ymateb i'r problemau a amlygwyd gyda'r bwriad o sefydlu trefniadau mwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer y dyfodol.

6.6 Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

Mae'r Fframwaith Gwella Ysgolion newydd yn gosod y disgwyliadau'n glir ar gyfer y blynyddoedd nesaf, fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi manylion y cynnig cenedlaethol hyd yma.

6.7 Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

Bydd y trefniadau cydweithio rhanbarthol rhwng y 6 sir a chonsortia rhanbarthol GwE yn dirwyn i ben ddiwedd Mawrth 2025, gyda'r disgwyliad i'r Awdurdodau fynd ati i sefydlu trefniadau ar gyfer cefnogi ysgolion o 1 Ebrill 2025 ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n awyddus i weld awdurdodau'n cydweithio ond ar lefel mwy lleol.

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

7.1 Yn sgil y ffaith mai Llywodraeth Cymru sydd yn arwain ar y newid yn sgil comisiynu'r adolygiad haen ganol, rydym wedi gofyn wrth y Llywodraeth am wybodaeth ynglŷn â'r modd y maent wedi ystyried yr effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg, a'r dyletswydd economaidd-gymdeithasol. Ar hyn o bryd, ystyrir ei bod yn gynamserol i'r Adran Addysg asesu effaith y newid arfaethedig ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg a'r dyletswydd economaidd-gymdeithasol, gan ein bod yn dilyn yr arweiniad a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r newid arfaethedig. Er

hynny, byddwn yn ystyried yr effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg a'r dyletswydd economaidd-gymdeithasol wrth ymateb i'r camau nesaf ar lefel lleol.

**8. Camau Nesaf**

8.1 Ar 26 Mehefin 2024, derbyniwyd gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru a oedd yn nodi'r camau nesaf a'r amserlen fel a ganlyn:

| Dyddiad | Allbwn | Arweinydd |
|---|---|---|
| Mehefin | Dosbarthu'r canllawiau drafft – *Model cydweithredol rhwng ysgolion, ALlau, a'r llywodraeth genedlaethol* | Llywodraeth Cymru |
| Gorffennaf | Trafodaethau anffurfiol a phob ALl yn seiliedig ar y templed sy'n ategu'r canllawiau. (Dylid anfon unrhyw sylwadau ar y canllawiau eu hunain i'w derbyn erbyn diwedd mis Gorffennaf 2024. | Llywodraeth Cymru a'r tîm partner |
| Medi | Cyhoeddi rhagor o fanylion am swyddogaethau capasiti cenedlaethol. Canllawiau a thempled wedi'u diweddaru yn seiliedig ar adborth.* | Llywodraeth Cymru |
| Diwedd mis Hydref | Cyflwyno cynlluniau terfynol ALlau yn seiliedig ar y templed. | ALlau |
| Diwedd 2024 | Ymgynghoriad ar y canllawiau Gwella Ysgolion diwygiedig a fydd yn adeiladu ar ganlyniadau'r broses SIPP hon. | Llywodraeth Cymru |

**Bydd manylion a nodir yn y canllawiau am gapasiti cenedlaethol yn effeithio ar ALlau i ryw raddau o ran cwmpas a natur cymorth a swyddogaethau cenedlaethol mewn meysydd penodol.*

**Atodiadau**

*Atodiad 1* *Canllawiau drafft – Galluogi System Hunan-wella – model cydweithredol rhwng ysgolion, ALlau a Llywodraeth Cymru*